

Tirweddau Cymru:

Blwyddyn o Effaith Gyfunol, 2025-26





Tirweddau Cymru Landscapes Wales

0 25 50
Cilometrâu / Kilometres

Ynys Môn
Isle of Anglesey

Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range
and Dee Valley

Llyn

Eryri

Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast

Dyffryn Gwy
Wye Valley

Bannau Brycheiniog

Gŵyr
Gower

Tirweddau Dynodedig yng Nghymru Designated Landscapes in Wales

-  Parc Cenedlaethol
National Park
-  Tirwedd Cenedlaethol
National Landscape

Gweithio Gyda'n Gilydd dros Dirweddau Cymru

Rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn sydd, wrth imi gamu i lawr ar ôl fy nwy flynedd fel Cadeirydd, yn adlewyrchu blwyddyn o gydweithio cryf, pwrpas cyffredin a chynnydd gwirioneddol ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru.

Mae cefnogi Tirweddau Cymru yn ystod y cyfnod pwysig hwn o ddatblygiad a thwf mewn effaith genedlaethol wedi bod yn fraint. Mae'n bleser gennyf drosglwyddo'r awenau i Tegryn Jones, y bydd ei arweinyddiaeth a'i ymrwymiad yn helpu i arwain y bartneriaeth i'w phennod nesaf gyda hyder ac uchelgais.

Andrew Blake

Cadeirydd ymadawol Tirweddau Cymru





Cyflwyniad

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Tirweddau Cymru wedi atgyfnerthu'r broses o ddod â Thirweddau Dynodedig Cymru ynghyd gyda phwrpas cyffredin sef gofalu am ein lleoedd mwyaf arbennig, cefnogi'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ynddynt, a'u helpu i ffynnu am genedlaethau i ddod.

Mae'r adroddiad hwn yn dathlu'r hyn a wnaeth cydweithio ac arweinyddiaeth yn bosibl yn ystod 2025-26. Mae'n adlewyrchu ymdrechion cyfunol ein wyth o Dirweddau Dynodedig, partneriaid ledled Cymru, a'r tîm Tirweddau Cymru.

Yn 2025-26, fe gryfhaodd Tirweddau Cymru arweinyddiaeth genedlaethol dros Dirweddau Dynodedig Cymru a chyflawni canlyniadau ymarferol ar draws ffermio, adferiad byd natur, gweithredu dros yr hinsawdd, a chynhwysiant. Mae'r llwyddiannau'n cynnwys:

- Wyth o Dirweddau Dynodedig yn gweithio gyda'i gilydd ledled Gymru
- £1.55 miliwn wedi'i fuddsoddi drwy Ffermio Bro, gan gefnogi 142 o brosiectau a gymeradwywyd ledled Tirweddau Dynodedig Cymru
- Cydnabyddiaeth bod Tirweddau Dynodedig yn cwmpasu 25% o Gymru, ac yn ganolog i adfer byd natur ac uchelgeisiau 30 erbyn 30
- Dros 50 o aelodau staff wedi'u hyfforddi a'u cysylltu drwy waith cenedlaethol i adfer byd natur
- Gwaith cynhwysiant newydd a lansiwyd drwy Gweld Cymru'n Wahanol - Hiraeth RNIB Cymru

Pwy ydym ni

Tirweddau Cymru yw'r bartneriaeth dros Dirweddau Dynodedig Cymru – y tri Pharc Cenedlaethol a'r pum Tirwedd Genedlaethol. Rydym yn galluogi'r Tirweddau Dynodedig i gydweithio drwy gryfhau arweinyddiaeth, rhannu arbenigedd, a chryfhau ein llais cyfunol.

Yn 2025, mabwysiadodd y bartneriaeth strwythur llywodraethu cryfach, fwy parod ar gyfer y dyfodol. Daeth Partneriaeth Tirweddau Cymru yn Fwrdd Partneriaeth Tirweddau Cymru, gan ddod ag arweinyddiaeth ac atebolrwydd cliriach wrth gynnal cysylltiadau cryfach â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, a rhwydweithiau tirwedd ledled y DU.

Mae ein tîm yn gweithio ledled Cymru i gydlynnu ffermio, adferiad byd natur, gweithredu dros yr hinsawdd, a chynhwysiant ar lefel genedlaethol.





Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Llais ar gyfer y Sector

Nododd eleni gam pwysig o newid yn rôl genedlaethol Tirweddau Cymru. Cryfhawyd trefniadau llywodraethu, diweddarwyd cylch gorchwyl, a chyflwynwyd cynllunio olyniaeth i wella parhad a gwytnwch. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol i helpu i lunio dyfodol Tirweddau Dynodedig yng Nghymru.

Parhaodd twf proffil Tirweddau Cymru drwy gyfranogiad gweithredol mewn rhwydweithiau Ewropeaidd a'r DU a phresenoldeb cryf mewn digwyddiadau cenedlaethol, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru. Daeth ein seminar blynyddol 2025, a gynhaliwyd gan Dirwedd Genedlaethol Dyffryn Gwy, â mwy na 60 o bartneriaid ynghyd gan groesawu'r Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd, Huw Irranca-Davies AS, i lansio Ffermio Bro.



Cefnogi Ffermwyr drwy Ffermio Bro

Un o gyflawniadau nodedig 2025-26 oedd y flwyddyn lawn gyntaf lwyddiannus o Ffermio Bro, cynllun cymorth ffermio blaenllaw Cymru ar gyfer Tirweddau Dynodedig.

- Buddsoddwyd dros £1.5 miliwn mewn ffermydd ledled Tirweddau Dynodedig Cymru
- Mae ymgynghorwyr bellach yn eu swyddi ar draws pob Tirwedd Ddynodedig
- Mae systemau a chanllawiau cenedlaethol cyson bellach ar waith, ar gyfer ymgeiswyr a Phaneli Asesu Lleol
- Sicrhodd rheolaeth ariannol gref dargedu a defnydd effeithiol o gyllid cyhoeddus

Arweiniodd Tirweddau Cymru gydlyniant cenedlaethol, hyfforddiant ymgynghorwyr, a datblygu cynlluniau, gan sicrhau bod ffermwyr yn derbyn cymorth eglur, cyson a dibynadwy. Mae paratodau eisoes ar y gweill ar gyfer cam nesaf Ffermio Bro (2026-2028), gan ddatblygu'r sylfeini cadarn a'r gwersi a ddysgwyd.





Astudiaeth Achos: Ffermio Bro - Ffermwyr yn Arwain Adferiad Byd Natur

Dangosodd blwyddyn lawn gyntaf Ffermio Bro sut y gall gweithredu'n lleol fod o fudd i fyd natur, yr hinsawdd, a busnesau ffermio ledled Cymru.

- Roedd gwaith adferiad byd natur wedi'i gefnogi ar draws mwy na 10,000 hectar o dir
- Mae dros 100,000 o goed wedi'u plannu
- Mae mwy na 37km o wrychoedd wedi'u hadfer neu eu creu
- Mae oddeutu 6km o waliau carreg traddodiadol wedi'u hadnewyddu neu eu hailadeiladu
- Cynorthwywyd ffermwyr drwy gyngor ymarferol, arweiniad ecolegol a phartneriaethau lleol

Ym Mharc Cenedlaethol Eryri, cydweithiodd saith o ffermwyr o'r grŵp Bro Machno ar reoli llifogydd naturiol yn nalgylch Dyffryn Conwy, gan adfer gwlypdiroedd i leihau'r perygl o lifogydd, gwella ansawdd dŵr, a chreu cynefin i fywyd gwylt.

Mae llwyddiant y cynllun yn dangos gwerth cyngor lleol dibynadwy a chydweithio, gan helpu i lywio'r drafodaeth ynghylch Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru yn y dyfodol.

"Mae blwyddyn gyntaf Ffermio Bro wedi dangos grym gweithredu'n lleol i gefnogi ffermio sy'n gyfeillgar i fyd natur pan mae ffermwyr a Thirweddau Dynodedig yn gweithio gyda'i gilydd gyda gweledigaeth gyffredin."

- Huw Irranca-Davies AS, Dirprwy Brif Weinidog

Datblygu Adferiad a 30erbyn30


Mae adferiad byd natur ar raddfa yn ganolog i'n cenhadaeth. Yn ystod 2025-26, gwnaeth Tirweddau Dynodedig ledled Cymru gynnydd tuag at adferiad byd natur a'r ymrwymiad i 30erbyn30.

Roedd prif gyflawniadau yn cynnwys:

- Sefydlu Fforwm Adferiad Byd Natur cenedlaethol
- Darparu hyfforddiant a gweithdai ar gyfer dros 50 o staff tirwedd
- Gwella mynediad at ddata, mapio ac offer monitro
- Cryfhau partneriaethau gyda CNC a sefydliadau academiaidd

Mae'r dull cydweithredol hwn yn helpu i sicrhau bod tirweddau mwyaf gwerthfawr Cymru yn chwarae rhan flaenllaw mewn adferiad byd natur, gyda chefnogaeth tystiolaeth gadarn a dysgu a rennir.





Astudiaeth Achos: Tirweddau Dynodedig ac Adferiad Byd Natur Cymru

Atgyfnerthodd adroddiad annibynnol dan arweiniad Cymdeithas Ecologol Prydain rôl Tirweddau Dynodedig wrth fynd i'r afael ag argyfwng byd natur Cymru a chyflawni'r ymrwymiad "30erbyn30".

Er bod y tirweddau hyn yn cwmpasu 25% o Gymru, canfu'r adroddiad mai dim ond cyfran fach sy'n cael ei gwarchod yn effeithiol ar gyfer byd natur a galwyd am arweinyddiaeth, buddsoddiad, monitro a gweithio mewn partneriaeth cryfach.

Roedd ei neges ganolog yn glir: mae adferiad byd natur yn dibynnu ar wybodaeth leol, rhannu perchnogaeth, a gweithredu ymarferol ar lawr gwlad.

"Ni all Tirweddau Dynodedig gyflawni adferiad byd natur ar ei phen ei hun. Dyw ei chynlluniau ond yn cael effaith gwirioneddol pan maent yn cael eu llunio a'u perchnogi gan y bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn dibynnu ar y lleoedd hyn. Felly, mae cydweithio'n hanfodol - er mwyn cysylltu penderfyniadau ynghylch y defnydd o'r tir gyda phrofiad lleol, er mwyn sicrhau bod bob llais yn cael ei glywed, ac er mwyn cydbwysu anghenion amrywiol a dyheadau sydd, gyda'i gilydd, yn diffinio'r tirweddau hyn."

- **Howard Davies**, Ymgynghorydd
Amgylcheddol Annibynnol a chyd-awdur yr adroddiad

Gweithredu Dros yr Hinsawdd ar Draws Tirweddau

Darparodd Tirweddau Cymru gydlyn cenedlaethol ar gyfer gweithredu dros yr hinsawdd ar raddfa tirwedd, gan gynorthwyo Tirweddau Dynodedig i symud tuag at Gynlluniau Gweithredu dros yr Hinsawdd cyson ac uchelgeisiol.

Daeth gweithdy Cymru gyfan yn Aberystwyth â phartneriaid ynghyd i ddatblygu dull cyffredin, gyda chymorth cydweithio parhaus â Pharciau Cenedlaethol y DU, arbenigwyr ar yr hinsawdd, a rhwydweithiau ymchwil. Mae'r gwaith hwn yn helpu Tirweddau Dynodedig Cymru i leihau allyriadau ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.





Cynhwysiant, Perthyn a Llywodraethu Da

Mae creu tirweddau lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn yn ymrwymiad craidd.

Drwy gydol y flwyddyn, roedd cynhwysiant, amrywiaeth a rhagoriaeth mewn llywodraethu wedi'u hymgorffori ar draws holl raglenni Tirweddau Cymru. Roedd hyn yn cynnwys:

- Sefydlu Gweithgor Perthyn cenedlaethol
- Arwain mentrau mynediad cynhwysol gyda phartneriaid megis RNIB
- Cynorthwyo ymgysylltiad ieuencid drwy rwydweithiau ceidwaid
- Dylanwadu ar bolisi cenedlaethol ar gydraddoldeb, mynediad a llesiant

O drywyddau hygyrch i adrodd straeon cynhwysol, mae'r gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod tirweddau Cymru ar gyfer pawb.



Astudiaeth Achos: Gweld Cymru'n Wahanol - Gwneud Tirweddau Cymru'n fwy Cynhwysol

Mae **Gweld Cymru'n Wahanol - Hiraeth**, a lansiwyd gyda RNIB Cymru yn 2025-26, yn helpu i wella mynediad i Dirweddau Dynodedig Cymru i bobl ddall a rhannol ddall.

Gyda chefnogaeth Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae'r prosiect tair blynedd yn cyfuno gwelliannau ymarferol, hyfforddiant staff, ac ymgysylltu cymunedol fel y gall mwy o bobl fwynhau byd natur yn annibynnol ac yn hyderus.

Mae prif feysydd gwaith yn cynnwys:

- Mapio llwybrau cerdded synhwyrdd a hygyrch
- Ystyried technoleg arloesol i wella profiadau ymwelwyr
- Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o golli golwg i staff a gwirfoddolwyr
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o iechyd y llygaid mewn cymunedau gwledig a chymunedau ffermio


Mae'r prosiect hefyd y mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ehangach yng nghefn gwlad Cymru drwy waith codi ymwybyddiaeth o iechyd y llygaid gyda phartneriaid cymunedol a ffermio.

Wrth ymgorffori hygyrchedd o'r dechrau un, mae'r fenter yn helpu i greu dull mwy cynhwysol o reoli tirwedd.

"Fel rhywun sydd â phrofiad go iawn o golli golwg, rwy'n gwybod pa mor bwysig yw'r gwaith yma - a pha mor rymus y gall fod i deimlo eich bod yn cael eich gweld a'ch cefnogi'n wirioneddol yn y tirweddau rydym yn eu galw'n gartref."

- **Gareth Davies**, RNIB Cymru





Datblygu Tystiolaeth a Dylanwadu ar Bolisi

Mae Tirweddau Cymru'n parhau i weithredu fel pont rhwng ymchwil, polisi, ac arfer.

Yn ystod 2025-26, cyhoeddwyd maniffesto Tirweddau Cymru cyn etholiad y Senedd yn 2026, sicrhawyd partneriaethau ymchwil newydd, cyfrannau at ddeddfwriaeth genedlaethol, ac ymgysylltu'n eang â phrifysgolion, sefydliadau trydydd sector, a llywodraeth.

Wrth gryfhau sail y dystiolaeth ar gyfer Tirweddau Dynodedig, rydym yn helpu i lunio polisi gwell a gweithredu mwy effeithiol ledled Cymru.



Rhannu Stori Tirweddau Cymru

Mae cyfathrebiadau cryf wedi helpu i godi proffil Tirweddau Dynodedig yn genedlaethol. Roedd eleni'n cynnwys y canlynol:

- Datblygiad parhaus gwefan Tirweddau Cymru
- Prosiectau adrodd straeon a fideos cenedlaethol
- Cynyddu cyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol dwyieithog
- Cyhoeddi Calendr Tirweddau Cymru

Gyda'i gilydd, mae'r gweithgareddau hyn yn helpu rhagor o bobl i ddeall gwerth tirweddau a warchodir a'r rôl sydd ganddynt i'w chwarae yn nyfodol Cymru.





Tirweddau Cymru Landscapes Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein gweledigaeth

Mae Tirweddau Cymru Landscapes Wales yn datgloi potensial y Tirweddau Dynodedig i gyflawni mwy o ran yr hinsawdd, o ran natur, o ran diwylliant a threftadaeth ac o ran pobl.

Mae'r Tirweddau Dynodedig yn esiamplau o ran ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur; lle mae dulliau sy'n canolbwyntio ar bobl yn sicrhau bod pob llais yn cael ei gynrychioli a bod pob cam radical yn cael ei gymryd ar y cyd.

Tirweddau Cymru Landscapes Wales

01646 625814 | www.tirweddaucymru.org.uk | www.landscapeswales.org.uk

Manylion cyswllt ar gyfer Tirweddau Dynodedig yng Nghymru:

Bannau Brycheiniog

01874 624437
<https://bannau.cymru>
<https://bannau.wales>

Eryri

01766 770274
www.eryri.llyw.cymru
www.eryri.gov.wales

Arfordir Penfro Pembrokeshire Coast

01646 624800
www.arfordirpenfro.cymru
www.pembrokeshirecoast.wales

Dyffryn Gwy Wye Valley

01600 713977
www.wyvalley-nl.org.uk

Llyn

01758 704155
www.ahne-llyn-aonb.cymru

Ynys Môn Isle of Anglesey

01248 750057
www.ynysmon.gov.uk/AHNE
www.anglesey.gov.uk/AONB

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Clwydian Range and Dee Valley

01824 712757
www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk
www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk

Gŵyr / Gower

01792 635094 / 635741
www.abertawe.gov.uk/aohne
www.swansea.gov.uk/aonb
www.dewchifaeabertawe.com
www.visitswanseabay.com

I'r Dyfodol

Mae cyflawniadau 2025-26 yn dangos grym cydweithio cenedlaethol. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd Tirweddau Cymru'n parhau i gryfhau arweinyddiaeth, cynorthwyo menter, a hyrwyddo Tirweddau Dynodedig Cymru ar y llwyfan cenedlaethol.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y cynnydd eleni. Gyda'n gilydd, rydym yn helpu i lunio dyfodol gwydn, cynhwysol a chyfoethog o ran byd natur i Gymru.

